
**Cyflwyniad gan Dr Einir Young**
**Yn ystod Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd cyntaf Pen Llŷn**
**2.7.22**

Diolch am y gwahoddiad i ddweud gair byr ar ddechrau'r cynulliad heddiw.




Yn benodol dwi'n awyddus ein bod ni gyd yn gweld her enfawr newid yn yr hinsawdd fel rhan o'r darlun mawr, nid fel un peth ar ei ben ei hun.



Do'n i methu bod gyda chi, ond dyma fi gyda fy ffrind gorau, Leila. O dan y llun mae yna rif . Nid fy rhif PIN yn anffodus, ond gobeithio erbyn diwedd y cyflwyniad byr y byddwch yn ei weld yn rhif handi iawn. Cofiwch y rif - 1.4.5.7.17.




Cyn mynd ymhellach dwi isio crybwyll Eco Amgueddfa Llŷn. Dwni ddim faint ohonoch sy'n sylweddoli bod safleoedd treftadaeth yn Llŷn yn cydweithio i farchnata eu safleoedd. Y nôd yw galluogi cymunedau arfordirol i hyrwyddo eu hasedau naturiol a diwylliannol, er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth sydd yn gynaliadwy ac yn adfywiol.



Ond beth ar y ddaear yw eco-amgueddfa? Mae amgueddfa draddodiadol yn cynnwys adeilad, casgliad o greiriau a lluniau, staff arbenigol ac ymwelwyr, tra bod eco-amgueddfa ar y llaw arall yn cynnwys tirlun a tiriogaeth, treftadaeth, atgofion a dyheadau a chymuned.

Mae heriau newid yn yr hinsawdd a'r heriau mae'r eco-amgueddfa a phartneriaethau fel Partneriaeth Tirlun Llŷn yn ceisio eu datrys yn perthyn yn agos iawn, a'r unig ffordd i daclo newid yn yr hinsawdd yw taclo problemau economaidd cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, i gyd efo'i gilydd.




A dyma nhw'r safleoedd, Nantgwrtheyrn, Amgueddfa Forwrol Llŷn, Felin Uchaf, Porth y Swnt, Plas yn Rhiw ac Oriel Plas Glyn y Weddw. Does dim amser i fanylu ond da chi ewch i wefan yr Eco Amgueddfa, dilynwch yr hashnod #ecoamgueddfa ac ewch i weld y safleoedd.

Ar Fehefin 17 cyhoeddodd Syr Frank Atherton, Prif Feddyg Llywodraeth Cymru, fod newid yn yr hinsawdd yn mynd i gael effaith gwaeth ar Gymru na'r pandemig covid. Gai eich hannog i gymryd diddordeb yn safleoedd yr eco amgueddfa, a chysidro oes ffyrdd o gyd-weithio er mwyn hybu gwell dealltwriaeth o heriau newid yn yr hinsawdd.

Ond i symud ymlaen, fi'n siŵr eich bo chi gyd ar bigau'r drain isio fi ddatgelu dirgelwch 1.4.5.7.17.




A dyma ni fframwaith ar gyfer gweithredu heddiw. Datblygu gweledigaeth hir-dymor. Cofleidio pedwar piler cynaliadwyedd, hyrwyddo 5 ffordd o weithio, cyfarch 7 nôd llesiant Cymru a cyfrannu at 17 o nodau y Cenhedloedd Uniedig. 1.4.5.7.17.





A dyma'r weledigaeth; rhoi ystyriaethau hinsawdd wrth galon mentrau sydd yn galluogi Pen Llŷn i fod yn gartref yn ogystal â chyrchfan. Yn rhoi cyfleoedd i gymunedau heddiw a'r dyfodol i ffynnu yn eu cynefin, ar eu telerau nhw ei hunain.





A dyma'r pedwar piler: yr economi, amgylchedd, cymdeithas a diwylliant. Wrth ystyried sut i daclo newid yn yr hinsawdd mae'n bwysig ein bod yn cydbwyso'r dyhead ar gyfer twf economaidd gyda ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, Beth am edrych

am batrymau, gweithio allan sut i osgoi gweithredu mewn seilos, gwneud cysylltiadau, adeiladu cymunedau a chofio'r gwerthoedd.



Newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng hinsawdd yw pwnc heddiw, ond mae ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys y tirwedd, rheoli tir, bioamrywiaeth, ac ardrawiad y rhaid ar yr economi, cymdeithas a diwylliant. Gadewch i ni edrych i'r gorffennol, gwrando ar bobl sy'n gwybod o fewn ein cymdeithas, a beth am chwilio am ddoethineb lleol, herio'n golydd ac arbenigwyr, ond cofiwch, dim lladd arnyn nhw!





Mae yna bum ffordd o weithio: hir-dymor, meddwl yn hir-dymor, osgoi gwneud pethau'n waeth, cyd-weithio, integreiddio a cynnwys.




Mae'n bwysig bod pob trafodaeth yn ystyried sut mae unrhyw weithgaredd arfaethedig yn cyfrannu at holl nodau llesiant Cymru, pob un ohonynt, nid un neu ddau. Cymru lewyrchus, iach, wydn, cyfartal, gyda chymunedau cyd-lynnus lle mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn ffynnu a phopeth yn dangos ein bod yn gyfrifol yn rhyngwladol.

A heb i’r nodau yma gael eu cyfarch yn eu cyfanrwydd mae’n anhebygol y byddwn yn gallu taclo’r newid yn yr hinsawdd a goroesi’r argyfwng sy’n ein wynebu.

Ac mae yna 17 nod datblygu cynaliadwy gan y cenhedloedd unedig hefyd, felly dyna chi, yr 1.4.5.7.17.




Dwi’n hoff iawn o’r sleid hon, er nad yw hi’n cyfieithu’n dda. Beth am feddwl am ffyrdd o roi llai o bwyslais ar ‘fi’, a mwy ar y ‘ni’. Trwy roi pwyslais ar gymuned a chysylltiadau yn hytrach nac ar unigolion, trwy adeiladu cymunedau a meithrin parch at y tir, a’n dealltwriaeth o le gallwn fynd i’r afael â’r heriau dwys sy’n ein wynebu.

Fel mae tîm pêl-droed Cymru yn ein hatgoffa, ‘Gorau chwarae, cyd chwarae’ - together, stronger.

Pob lwc i chi gyd heddiw, gobeithio bydd y diwrnod yn un llwyddiannus. Dwi’n edrych ymlaen i glywed eich syniadau a gobeithio allai ymuno gyda chi rhyw ddydd yn y dyfodol. Hwyl fawr.


ecoamgueddfa
Diolch yn fawr
live
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund
UCC
BANGOR